# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4**

**Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Mai 2023

Amser: 09.30 - 10.45

# Hybrid, preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Graeme Keay, Alma Economics<br>Dr Eleni Kotsira, Alma Economics |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Božo Lugonja (Ymchwilydd)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2023, derbyniodd y Pwyllgor gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw.**

Cofrestru (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Adolygiad Annibynnol y Dreth Trafodiadau Tir: cyflwyniad Alma Economics

2.1 Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Adolygiad Annibynnol y Dreth Trafodiadau Tir gan Graeme Keay ac Eleni Kotsira o Alma Economics.

## 3 Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24: Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

3.1 Trafododd y Pwyllgor yr amcangyfrifon atodol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a Chomisiwn y Senedd.

## 4 Archwilio Cymru - hysbysu am ddyddiadau cau archwilio

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i aildrefnu'r eitem ar gyfer y cyfarfod ar 21 Mehefin 2023.

## 5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Ardrethu Annomestig

5.1 Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ardrethu Annomestig a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

## 6 Trafod llythyr drafft at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys

6.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys a'i dderbyn gyda mân newidiadau.

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Diweddariad ar ymgysylltu â rhanddeiliaid

7.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ynghylch y digwyddiad i randdeiliaid.